| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **31 Mai 2012** |
| **Aelod/Swyddog Arwain:** | **Pennaeth Perfformiad a Chynllunio Busnes** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Perfformiad a Chynllunio Busnes** |
| **Teitl:** | **Bwrdd Rhanbarthol Cymunedau Mwy Diogel** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cynnydd tuag at ffurfio Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cymunedau Mwy Diogel.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu am y cynnydd i ffurfio Bwrdd Rhanbarthol Cymunedau Mwy Diogel.

2.2 Cyflwyno'r Cytundeb Partneriaeth diwygiedig ar gyfer y Bwrdd.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor Craffu:

3.1 yn rhoi sylwadau am y Cytundeb Partneriaeth diwygiedig; ac

3.2 yn cefnogi'r trefniadau diwygiedig fel y'u disgrifir yn y Cytundeb.

**4. Manylion yr adroddiad**

4.1 Ym mis Rhagfyr 2010 cytunwyd, yn rhan o Adolygiad Partneriaeth Gogledd Cymru, y byddai Bwrdd Rhanbarthol Cymunedau Mwy Diogel ar gyfer Gogledd Cymru'n cael ei sefydlu erbyn 2012.

4.2 Cynigiwyd y byddai'r Bwrdd hwn yn gyfrifol am lywodraethu, comisiynu rhanbarthol a goruchwylio trefniadau cyflenwi gweithredol Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid. Byddai hefyd yn dylanwadu ar ddarparu a datblygu gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol.

4.3 Byddai'r Bwrdd yn cael ei gefnogi gan drefniadau gweithredol isranbarthol. Byddai'r partneriaethau llai ffurfiol hyn yn weithredol gyda'r ardaloedd sirol yn gweithio mewn cwpledi, gan feithrin ymhellach drefniadau partneriaeth presennol neu ddatblygol, fel a ganlyn:

- Ynys Môn/ Gwynedd

- Conwy/ Sir Ddinbych
- Sir y Fflint/Wrecsam

4.4 Bydd y Bwrdd yn cydnabod ac yn parchu gwahaniaethau isranbarthol. Bydd cyfle i gael gwahanol ffyrdd o weithio ym mhob isranbarth e.e. graddau uno ffurfiol y timau gweithredol cyfredol. Byddai blaenoriaethau'r grwpiau isranbarthol yn cael eu tywys gan y Bwrdd i sicrhau mwy o gysondeb wrth gyflawni safonau perfformiad a chanlyniadau.

4.5. Cynigiwyd yn wreiddiol y dylai'r Bwrdd fod yn drefniant ffurfiol yn seiliedig ar y model Cydbwyllgor, gyda chyfrifoldeb am swyddogaethau statudol y partneriaethau, a rôl gynyddol mewn comisiynu gwasanaethau ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag, ni chefnogwyd syniad Cydbwyllgor ffurfiol ar draws Gynghorau Gogledd Cymru, ac yn hytrach cynigir trefniant llai ffurfiol yn ei le. Hefyd, roedd amheuon ynghylch y model comisiynu rhanbarthol arfaethedig, ac mae hwn hefyd wedi'i waredu o'r cynnig. Mae Cytundeb Partneriaeth diwygiedig wedi'i gynnwys sy'n adlewyrchu'r newidiadau hyn (Gweler yr Atodiad). Disgrifir prif elfennau'r cytundeb newydd isod.

4.6 Rôl Strategol Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru

Bydd y Bwrdd yn derbyn y cyfrifoldebau strategol rhanbarthol sy'n perthyn ar hyn o bryd i grwpiau strategol a gweithredol lleol. Bydd:

- Yn datblygu'r weledigaeth i Ogledd Cymru ar gyfer Diogelwch Cymunedol a Chyfiawnder Ieuenctid ac yn cytuno arno.
- Yn sefydlu'r nodau strategol bras i'r partneriaethau gweithredol is-ranbarthol gyrraedd nodau'r Cynllun Diogelwch Cymunedol.
- Yn goruchwylio ac yn datblygu cynlluniau strategol gydag effeithiau cychwynnol mewn meysydd polisi penodol lle mae perfformiad anghyson ar draws y rhanbarth.
- Yn monitro perfformiad, yn crisialu ac yn cymeradwyo arfer da, ac yn annog gwelliant parhaus ac yn sicrhau y cydymffurfir â'r 'dilysnodau arfer effeithiol' fel y'u nodir gan statud.
- Yn cyfarwyddo ac yn cynnal asesiadau anghenion ac ymgynghoriadau cyhoeddus yn ôl y gofyn.
- Yn hyrwyddo'r broses o brif ffrydio diogelwch cymunedol ar lefel strategol gyda sefydliadau partner.
- Yn hyrwyddo cydweithio wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus lleol.
- Yn lleihau graddfa a chost trefniadau partneriaeth sylfaenol ar lefel is-ranbarthol a lleol.

4.7 Aelodaeth
Cynigir mai'r aelodaeth fydd yr Aelod Etholedig Arwain ar gyfer Diogelwch Cymunedol o bob Awdurdod Lleol, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân. Bydd hefyd grŵp 'arbenigol' cefnogol o

swyddogion, gyda phrofiad mewn Diogelwch Cymunedol a Chyfiawnder Ieuenctid.

4.8 Comisiynu a dyrannu adnoddau
Yn y tymor byr, bydd y Bwrdd yn gyfrifol am bolisi, cyfeiriad strategol a blaenoriaethau cyffredinol. Yn y pen draw, gallai'r Bwrdd fod yn gyfrifol o hyd am gomisiynu gwasanaethau a ariennir drwy grantiau'r Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru ac am ddyrannu adnoddau i gefnogi gwaith y partneriaethau gweithredol Diogelwch Cymunedol a Chyfiawnder Ieuenctid is-ranbarthol, ond dim ond pe byddai cytundeb ar hyn.

4.9 Blaenraglen waith
Byddai gan y Bwrdd raglen waith ffurfiol gyda blaenoriaethau wedi'u gosod er mwyn cael effaith gynnar. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys strategaeth atal troseddau ieuenctid, ymagwedd gyson at bolisi ymddygiad gwrthgymdeithasol a dull ar y cyd o fynd i'r afael ag adolygiadau dynladdiad domestig.

4.10 Mae cyfarfod cyntaf y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel wedi'i drefnu ar gyfer 3 Gorffennaf 2012.

## 5. Datblygiadau cysylltiedig

5.1 Mae datblygiad y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel yn cael ei gysgodi gan ddatblygiadau pwysig eraill ym maes diogelwch cymunedol, yn arbennig, penodi Comisiynydd Heddlu newydd ar gyfer Gogledd Cymru erbyn mis Tachwedd 2012.

5.2. Cyn hynny, bydd y Panel Heddlu a Throsedd yn cael ei sefydlu, a fydd yn gyfrifol am graffu ar y swydd newydd. Mae aelodaeth y panel hwn o Gyngor Sir Ddinbych yn debygol o gynnwys yr aelod Cabinet Arwain ac enwebai o'r Pwyllgor Craffu. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n arwain y gwaith o ddatblygu'r Panel Heddlu a Throsedd ar ran rhanbarth Gogledd Cymru a dylai'r panel fod ar waith erbyn mis Medi 2012.

## 6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Diogelwch Cymunedol a gyflenwir drwy bartneriaeth yn elfen allweddol yn y Cynllun Mawr, ac mae gwella effeithiolrwydd partneriaethau drwy resymoli ymhlith amcanion allweddol y Cyngor a'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol.

## 7. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae arbedion yn bosibl yng nghost trefniadau partneriaeth is-ranbarthol a lleol.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal?**

Cynhaliwyd ymgynghoriadau â Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych, a'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau ac Uwch Dîm Arwain y Cyngor.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes dim goblygiadau ariannol mawr amlwg yn codi o'r cynigion, er gall fod rhai arbedion oherwydd effeithlonrwydd gweinyddol. Pe byddai'r Bwrdd am dderbyn cylch gwaith ehangach yn y dyfodol, gallai fod goblygiadau yn codi o gomisiynu rhanbarthol ac adnoddau ariannol cyfun.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes dim risgiau sylweddol ar hyn o bryd.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes penderfyniad yn ofynnol.

Mae Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac Erthygl 6 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi pwerau a rôl y Pwyllgor Craffu.

**Swyddog Cyswllt:**
Pennaeth Perfformiad a Chynllunio Busnes
Ffôn: 01824 706246